# Town Centre Matters

..............*an irregular newsletter from Mold Town Management*

April 2016

***Spring is upon us….not that you would notice!***

*Well the winter period could have been worse as we escaped snow of any note, however we did not escape the rain and cold spells, which unfortunately appeared to regularly happen on market days.*

*Since Christmas its pleasing to see that CC Viyella is now staying in town after having signed a new lease and that we have welcomed two new independent businesses with Mold Alehouse and Yarn O'Clock in Earl Road and a third, The Olive Tree Deli and Winery due to open in Upper High Street in the near future.*

*Mold Spring Clean was a great success with over 700 participants this year and more business than ever participating in some way. Springy, the Spring Clean mascot was out and about over the weekend, ensuring the young (and young at heart), received the message about how important it is to look after our town.*

*The town centre visitor infrastructure projects are progressing well and most of the new town signage has been installed (and redundant clutter removed), New Street car park works are well underway , the new street lighting is being installed shortly and the design of the new town gateway signs and additional Visitor Information Points are due to be completed shortly. The Town Council Community Development and Regeneration committee has also agreed for most of the town's footpaths to receive a refresh with a black slurry seal, which will overcome the "patchwork" of red / black / grey / etc mess we currently have. Funding for these works has come from car park revenues generated for 15 months before the County Council implemented parking charges across the rest of the Flintshire and then decided to also keep the additional revenues from Mold – apart from a small financial gesture!*

*The town events calendar will hopefully bring visitors to the town from near and far – a copy is attached but if you haven't received one please call in at the Town Council Offices in Mold Town Hall.*

*Thanks Dave Hill – Town Manager*

MBF
Mold Business Forum

## Meet your prospective AM – Hustings Event

Mold Business Forum have organised an opportunity for CH7 businesses to meet and put questions to their prospective Assembly Members for the Welsh Assembly.

This event is open to ALL Traders and businesses in Mold whether they are national, regional or independent; retail, service sector or hospitality and is an opportunity for business people to find out exactly where each party (and candidate) stands on important business issues facing Wales in general and CH7 in particular.

The event will take place: **from 5.30pm to 7.30pm on Tuesday 26th April 2016**

**at The Beaufort Park Hotel, New Brighton, Near Mold**

**Keep in the know….**

Whilst nothing can replace Town Centre Matters…….. Mold Town Council endeavours to communicate with all the people of Mold via various formats you can find the Town Council at www.moldtowncouncil.org.uk on Facebook, Twitter and if you wish to be included in a regular email circulation simply forward your preferred email address to Jane Evans at the Town Council on supportofficer@moldtowncouncil.org.uk .

## Flintshire Against Business Crime

A significant community safety initiative is coming to Mold in the next couple of months. The County Council working with North Wales Police are introducing '*Flintshire Against Business Crime*' which is a development of the highly successful Chester Against Business Crime initiative that has been operating to great acclaim for many years.

Businesses that sign up for the scheme get dedicated personnel who look to deter and then assist in keeping prolific criminals at bay from shoplifting, anti-social behaviour and other forms of stock loss and criminal activity.

Scheme members get access to a secure website where latest intelligence and photographs of offenders are shared amongst retailers, pubs and clubs, CCTV, Police and other community safety professionals. They also get the latest digital radio with clear and reliable communications between themselves, CCTV control and the Police.

Regular briefing events (similar to the current Shopwatch scheme) are held when intelligence is shared, relevant issues discussed and banning orders agreed for prolific local offenders.

Shopwatch in Mold has had some notable success however the infrastructure and support is not as professional as it could and should be and the radios are now well past their best and the network is due to be switched off in coming months, therefore Mold's retail and hospitality community need to make the most of this great opportunity to jointly address these important issues affecting Mold's ongoing attractiveness. There is obviously a cost, but it is being kept to an absolute minimum and is based on the size of the premises involved. The initiative is also receiving grant funding from the County Council and resource support from North Wales Police.
To find out more please contact Charlie Warr from Flintshire Against Business Crime on 03009991111 or PCSO Kelsey Evans on 07557849990, who will be calling in to businesses to explain more over the coming weeks.

## Hanging Baskets 2016

Hanging baskets will be going up shortly and all businesses are encouraged to invest in one or two, to not only add visual appeal to their own premises, but the town as a whole and help once again achieve the best kept town in Flintshire award.

If you would like the Town Council to provide your hanging basket, and get recognised through a sponsorship plaque on a basket, simply give Jane Evans, Town Council Support Officer a call on 01352.758532. The cost is only £60.00 …. and that also covers watering for the summer.

## Mold Celebrates the Queens 90th Birthday

Set for Sunday 12th June a **FREE** community event is to take place on Daniel Owen Square with the theme *music through the decades,* with memorable songs & dances from the 1930's through to the present day.

The event will run from midday to approximately 6pm with some great performers (many local but with a few from further afield) alongside a licensed bar, soft drinks, food and other refreshments.

It's is hoped that as many retailers will stay open as possible to benefit from and join in with the party atmosphere.

## Forthcoming Events

**2nd – 7th May—Virgin Art Exhibition**

Held in the wonderful St Mary's Church since 2009, this annual art exhibition provides local artists with a great venue to display and sell their work to visitors. The event attracts over a 1000 people every year. See www.virginartmold.org.uk

**Friday 10th & Saturday 11th June - Blues and Soul Festival fundraiser – St Mary's Church Hall, King Street.**

In support of the town's annual Blues and Soul festival the organising committee are putting on a fund raising event featuring local band Skariad (plus support act) on Friday evening and the ever popular Shrewdness of Apes (plus support act) on the Saturday. Hafod Ales, lager, wines and soft drinks alongside street style food. Advance tickets from £7 for 1 night and £12 for both. See www.nwblues&soul.co.uk for full details. Please book early as this is sure to be a popular event and numbers are strictly limited.

**Sunday 12th June—Mold Celebrates – The Queens 90th Birthday – Daniel Owen Square**

Please see above and Events Section at www.moldtowncouncil.org.uk

**Sunday 10th July—Town Carnival**

Mold Carnival is one of the best Carnival celebrations around attracting over 6000 people and takes place across the town. Experience the final of Mold's Got Talent, say hello to celebrity guests, enjoy amazing entertainment, experience the great fun fair and participate in fun events for all of the family. The organisers are actively looking for businesses to sponsor the event and volunteers to get involved in its organisation.

See www.moldcarnival.co.uk or www.facebook.com/MoldCarnival

# Materion Canol y Dref

*.............. newyddlen afreolaidd Rheolwr Tref yr Wyddgrug*

Ebrill 2016

***Mae'r gwanwyn ar ein gwarthaf… nid y byddech wedi sylwi!***

*Wel, fe allai cyfnod y gaeaf fod wedi bod yn waeth wrth i ni osgoi eira gwerth sôn amdano. Fodd bynnag, wnaethom ni ddim dianc rhag y glaw a chyfnodau oer oedd, yn ôl pob golwg, yn digwydd yn rheolaidd ar ddiwrnodau marchnad.*

*Ers y Nadolig mae'n dda gweld bod CC Viyella bellach yn aros yn y dref ar ôl llofnodi prydles newydd a'n bod wedi croesawu dau fusnes annibynnol newydd gyda Mold Alehouse ac Yarn O'Clock yn Ffordd yr Iarll a thrydydd, The Olive Tree Deli and Winery, fydd yn agor yn y Stryd Fawr Uchaf cyn bo hir.*

*Roedd Glanhau Mawr yr Wyddgrug yn llwyddiant ysgubol gyda thros 700 o gyfranogwyr eleni a mwy o fusnesau nag erioed yn cyfranogi mewn rhyw fodd. Roedd Springy, masgot y Glanhau Mawr, allan dros y penwythnos yn sicrhau bod yr ifanc (a'r ifanc yn y bôn) yn clywed y neges ynghylch pa mor bwysig yw gofalu am ein tref.*

*Mae prosiectau seilwaith ymwelwyr canol y dref yn bwrw ymlaen yn dda a'r rhan fwyaf o arwyddion newydd y dref yn eu lle (a phethau diangen wedi'u symud); gwaith ar faes parcio Stryd Newydd ymhell ar y ffordd; y goleuadau stryd newydd yn cael eu gosod yn fuan; a dylunio arwyddion porth newydd y dref a Mannau Hysbysu Ymwelwyr ychwanegol i'w orffen yn fuan. Mae pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymunedol Cyngor y Dref hefyd wedi cytuno bod y rhan fwyaf o lwybrau troed y dref i gael sêl adfywiol o slyri du, fydd yn cuddio'r "clytwaith" hyll o goch / du / llwyd / ac ati sydd gennym ar hyn o bryd. Daeth cymorth ariannol ar gyfer y gwaith hwn o dderbyniadau meysydd parcio a gynhyrchwyd yn y 15 mis cyn i'r Cyngor Sir ddechrau codi am barcio yng ngweddill Sir y Fflint ac yna benderfynu y byddai hefyd yn cadw derbyniadau ychwanegol o'r Wyddgrug – ar wahân i gyfraniad ariannol bach!*

*Y gobaith yw y bydd calendr achlysuron y dref yn denu ymwelwyr i'r dref o bell ac agos – atodwyd copi ond, os nad ydych wedi cael un, galwch heibio Swyddfeydd Cyngor y Dref yn Neuadd y Dref.*

*Diolch Dave Hill – Rheolwr y Dref*

MBF
Mold Business Forum

## Cyfle i gyfarfod eich darpar AC – Achlysur Etholiad

Mae Fforwm Busnes yr Wyddgrug wedi trefnu cyfle i fusnesau CH7 gyfarfod a holi eu darpar Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r achlysur hwn yn agored i HOLL fasnachwyr a busnesau yn yr Wyddgrug boed genedlaethol, rhanbarthol neu annibynnol; mân-werthu, sector gwasanaeth neu groeso ac mae'n gyfle i bobl fusnes ddarganfod yn union beth yw safbwynt pob plaid (ac ymgeisydd) ar faterion busnes pwysig sy'n wynebu Cymru'n gyffredinol a CH7 yn arbennig.

Bydd yr achlysur yn cael ei gynnal: **o 5.30pm i 7.30pm ar ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**

**yng Ngwesty Beaufort Park, New Brighton, ger yr Wyddgrug**

**yn y Westminster Suite**

Cofrestrwch eich diddordeb os ydych yn dod erbyn 10am ar ddydd Llun 25ain Ebrill gyda Deborah Lee o Reynolds Interna-

**Gwybod be 'di be….**

Tra na all dim ddisodli Materion Canol y Dref… mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ymdrechu i gysylltu â holl bobl yr Wyddgrug ar wahanol ffurfiau a gallwch gael hyd i Gyngor y Dref yn www.moldtowncouncil.org.uk ar Weplyfr, Trydar ac, os ydych eisiau cael eich cynnwys mewn cylchrediad e-bost rheolaidd, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at Jane Evans yng Nghyngor y Dref ar supportofficer@moldtowncouncil.org.uk .

## Sir y Fflint yn Erbyn Troseddau Busnes

Mae ymgyrch diogelwch cymunedol o bwys yn dod i'r Wyddgrug yn y mis neu ddau nesaf. Ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, mae'r Cyngor Sir yn sefydlu '*Sir y Fflint yn Erbyn Troseddau Busnes*' sy'n ddatblygiad o arweiniad Caer yn erbyn Troseddau Busnes a fu'n gweithredu'n llwyddiannus dros ben ers llawer blwyddyn. Bydd busnesau sy'n ymuno â'r cynllun yn cael personél unswydd sy'n ceisio rhwystro ac yna helpu cadw troseddwyr mynych rhag dwyn o siopau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a mathau eraill o golli stoc a gweithgaredd troseddol.

Bydd aelodau'r cynllun yn cael mynediad at wefan ddiogel lle caiff y gudd-wybodaeth ddiweddaraf a ffotograffau o droseddwyr eu rhannu ymhlith siopau, tafarnau a chlybiau, rheolwyr TCC, yr Heddlu a gweithwyr proffesiynol diogelwch cymunedol eraill. Byddant hefyd yn cael y radio digidol diweddaraf gyda chyfathrebu clir a dibynadwy rhyngddynt hwy, rheolwyr TCC a'r Heddlu. Caiff achlysuron cyfarwyddo rheolaidd (yn debyg i'r cynllun Gwarchod Siopau presennol) eu cynnal pan gaiff cudd-wybodaeth ei rhannu, materion perthnasol eu trafod a gorchmynion gwahardd eu cytuno ar droseddwyr lleol mynych.

Cafodd Gwarchod Siopau yn yr Wyddgrug rai llwyddiannau nodedig, Fodd bynnag, nid yw'r seilwaith a chefnogaeth mor broffesiynol ag y gallai ac y dylai fod ac mae'r radios erbyn hyn wedi gweld gwell dyddiau a'r rhwydwaith i gael ei ddiffodd yn y misoedd a ddaw. Felly, mae angen i gymuned siopau a chroeso'r Wyddgrug wneud y gorau o'r cyfle gwych hwn i roi sylw ar y cyd i'r materion pwysig hyn sy'n effeithio ar barhad atyniad y dref. Wrth gwrs bod cost, ond mae'n cael ei chadw i leiafswm eithaf ac yn cael ei seilio ar faint yr eiddo dan sylw. Mae'r fenter hefyd yn cael grant o'r Cyngor Sir a chymorth adnoddau Heddlu Gogledd Cymru.

I gael gwybod mwy cysylltwch â Charlie Warr o Sir y Fflint yn Erbyn Troseddau Busnes ar 03009991111 neu PCSO Kelsey Evans ar 07557849990, fydd yn galw heibio busnesau i esbonio mwy yn ystod yr wythnosau a ddaw.

## Basgedi Crog 2016

Bydd basgedi crog yn ymddangos yn fuan a chaiff holl fusnesau eu hannog i fuddsoddi mewn un neu ddwy, nid yn unig i ychwanegu apêl weledol at eu heiddo eu hunain, ond y dref gyfan a helpu ennill gwobr y dref fwyaf trwsiadus yn Sir y Fflint unwaith eto.

*Os hoffech i Gyngor y Dref ddarparu eich basged grog, a chael eich cydnabod trwy blac noddi ar fasged, ffoniwch Jane Evans, Swyddog Cymorth Cyngor y Dref, ar 01352.758532. Y gost yw dim ond £60.00 …. sydd hefyd yn cynnwys dyfrio drwy'r haf.*

## Yr Wyddgrug yn Dathlu Pen-blwydd y Frenhines yn 90

Ar ddydd Sul 12fed Mehefin bydd achlysur cymunedol **AM DDIM** ar Sgwâr Daniel Owen ar y thema *cerdd drwy'r degawdau,* gyda chaneuon a dawnsiau cofiadwy o'r 1930au hyd heddiw.

Bydd yn rhedeg o hanner dydd tan ryw 6pm gyda rhai perfformwyr gwych (llawer yn lleol ond ychydig o bellach draw) ochr yn ochr â bar trwyddedig, diodydd ysgafn, bwyd a lluniaeth arall.

Y gobaith yw y bydd gymaint â phosibl o siopau'n aros ar agor i fanteisio ar ac ymuno yn yr awyrgylch parti.

## Pethau Sy'n Dod

**2il – 7fed Mai**
**Arddangosfa Virgin Art**
Wedi'i chynnal yn Eglwys ryfeddol y Santes Fair ers 2009, mae'r arddangosfa gelfyddyd flynyddol hon yn lleoliad gwych i artistiaid lleol arddangos a gwerthu eu gwaith i ymwelwyr. Mae'n denu dros 1000 o bobl bob blwyddyn. Gwelwch www.virginartmold.org.uk

**Dydd Gwener 10fed a Dydd Sadwrn 11eg Mehefin**
**Codi arian at yr Ŵyl Blues and Soul – Neuadd Eglwys y Santes Fair, Heol y Brenin.**
I gefnogi gŵyl flynyddol Blues and Soul y dref mae'r pwyllgor trefnu'n cynnal achlysur codi arian gyda band lleol Skariad (ynghyd â rhywun arall) ar y nos Wener a'r bythol-boblogaidd Shrewdness of Apes (ynghyd â rhywun arall) ar y dydd Sadwrn. Hafod Ales, lager, gwinoedd a diodydd ysgafn ochr yn ochr â bwyd stryd. Tocynnau o flaen llaw o £7 am 1 noson a £12 am y ddwy. Gwelwch www.nwblues&soul.co.uk i gael manylion llawn. Cofiwch archebu'n gynnar oherwydd y bydd yn achlysur poblogaidd a niferoedd yn gyfyngedig.

**Dydd Sul 12fed Mehefin**
**Yr Wyddgrug yn Dathlu Pen-blwydd y Frenhines yn 90 – Sgwâr Daniel Owen**
Gwelwch uchod a'r Adran Achlysuron yn www.moldtowncouncil.org.uk

**Dydd Sul 10fed Gorffennaf**
**Carnifal y Dref**
Carnifal yr Wyddgrug yw un o'r dathliadau carnifal gorau o gwmpas, yn denu dros 6000 o bobl ac yn digwydd ledled y dref. Cyfle i weld rownd derfynol Mold's Got Talent, dweud s'mae wrth westeion enwog, mwynhau adloniant rhyfeddol, profi'r ffair wagedd wych a chymryd rhan mewn digwyddiadau hwyliog i'r teulu cyfan. Mae'r trefnyddion wrthi'n chwilio am fusnesau i noddi'r achlysur a gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'i drefniadaeth.
Gwelwch www.moldcarnival.co.uk neu www.facebook.com/MoldCarnival